# Health and Care Research Wales Faculty
# Writing retreat

## 21 – 23 October 2025

## The Management Centre, Bangor

Are you developing or writing a grant application for a post-doctoral personal fellowship?

Do you want some dedicated time and space to focus on it in a supported environment?

We are pleased to offer a unique opportunity for individuals to apply for a fully funded, two and a half day residential writing retreat, where attendees will benefit from dedicated time to rapidly progress proposals with expert support on hand.

You should be based in Wales and intending to apply to a relevant UK funding scheme which is open to applicants from Wales in the next 6 months.

Successful applicants will be offered a free place at the retreat which will include daytime food and accommodation. Travel to and from the retreat must be paid for by the applicant.

Applications will be assessed according to the track record and potential of the applicant (person) importance of the research idea for health and/or social care and relevance to the people and patients of Wales (project) and the proposed research setting (place). In keeping with Faculty objectives, we will particularly encourage applications from individuals from under-represented disciplines (such as allied health professions, nurses, social workers and pharmacists).

## Submit your application

**Deadline for applications 17:00 on 31 July 2025**

Contact the team if you have any questions: research-faculty@wales.nhs.uk

# Encil Ysgrifennu Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## 21 – 23 Hydref 2025

## Y Ganolfan Reoli, Bangor

Ydych chi'n datblygu neu'n ysgrifennu cais am grant am gymrodoriaeth bersonol ôl-ddoethurol?

Ydych chi eisiau rhywfaint o amser a lle pwrpasol i ganolbwyntio arno mewn amgylchedd â chefnogaeth?

Rydym yn falch o gynnig cyfle unigryw i unigolion wneud cais am encil ysgrifennu preswyl dau ddiwrnod a hanner wedi'i ariannu'n llawn, lle bydd mynychwyr yn elwa ar amser ymroddedig i fwrw ymlaen â chynigion yn gyflym gyda chefnogaeth arbenigol wrth law.

Dylech fod wedi'ch lleoli yng Nghymru ac yn bwriadu gwneud cais i gynllun cyllido perthnasol yn y DU sy'n agored i ymgeiswyr o Gymru yn ystod y 6 mis nesaf.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig lle am ddim yn yr encil a fydd yn cynnwys bwyd a llety yn ystod y dydd. Rhaid i'r ymgeisydd dalu am deithio i'r encil ac oddi yno.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail hanes cyflawni a photensial yr ymgeisydd (person), pwysigrwydd y syniad ymchwil ar gyfer iechyd a/neu ofal cymdeithasol a pherthnasedd i bobl a chleifion Cymru (prosiect) a lleoliad yr ymchwil arfaethedig (lle). Yn unol ag amcanion y Gyfadran, byddwn yn annog ceisiadau gan unigolion o ddisgyblaethau sydd wedi'u tangynrychioli (megis proffesiynau perthynol i iechyd, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol a fferyllwyr).

## Cyflwynwch eich cais

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 17:00 ar 31 Gorffennaf 2025**

Cysylltwch â'r tîm os oes gennych unrhyw gwestiynau: research-faculty@wales.nhs.uk